**Cyngor Adnewyddu'r Economi**

**Effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU ar Gymru**

## Crynodeb

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i Gyngor Adnewyddu'r Economi am ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU a'r effaith debygol yng Nghymru.

## Gweithredu Gofynnol

2. I'w drafod.

## Cefndir

3. Mae Deddf Diwygio Lles Llywodraeth y DU yn deddfu ar gyfer y newid mwyaf a welwyd i'r system les ers dros 60 mlynedd. Mae prif elfennau'r Ddeddf Diwygio Lles a'r newidiadau lles ehangach yn cynnwys:

- **Cynyddu pob budd-dal oedran gweithio yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr** (cynyddu yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu cyn hyn): O fis Ebrill 2011 ymlaen;
- **Diwygio'r Budd-dal Tai**: O fis Ebrill 2011 ymlaen (e.e. gweithredu'r cap ar fudd-dal drwy'r budd-dal tai a threth ystafell wely);
- **Budd-dal Plant**: Ebrill 2011 (rhewi cyfraddau), Ionawr 2013 (tapro'r gyfradd i'r rhai sy'n ennill £50,000+) neu ei dynnu'n ôl (i'r rhai sy'n ennill £60,000k +), Ebrill 2014 (codi cyfraddau 1% am ddwy flynedd) ;
- **Credydau Treth Gwaith / Credydau Treth Plant**: newidiadau o Ebrill 2011 ymlaen;
- **Cymhorthdal Incwm – amod unig riant**: cyflwynwyd ym Mawrth 2012;
- **Cyfyngu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau i gyfnod o flwyddyn**: Ebrill 2012;
- **Dileu Darpariaethau Ieuenctid Lwfans Cyflogaeth a Chymorth**: Ebrill 2012;
- **Credyd Cynhwysol**: sy'n cael ei weld fel elfen ganolog £2.4 biliwn y diwygiadau yn aml. Ei nod yw cyflwyno un system credyd budd-daliadau a threth sy'n cyfuno chwech o'r budd-daliadau incwm mewn gwaith ac allan o waith cyfredol. Cyflwynwyd cynllun arbrofol i grŵp o gwsmeriaid cyfyngedig ym mis Ebrill 2013; a'i ymestyn i safleoedd arbrofol eraill, yn cynnwys Shotton ym mis Ebrill 2014. Estynnwyd hyn ymhellach i tua 90 o Ganolfannau Gwaith yng Ngogledd Orllewin Lloegr yn haf 2014. Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cadarnhau cynlluniau manwl ar gyfer cyflwyno a symud i'r Credyd Cynhwysol eto.
- **Budd-daliadau a chredydau treth dewisol ar gyfer pobl o oedran gweithio:** cynyddu 1% am dair blynedd.
- **Taliad Annibyniaeth Bersonol,** newidiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl, drwy gyflwyno'r taliad newydd hwn, mae'n eithrio plant a'r rhai dros 65 oed, fe'i cyflwynwyd o Ebrill 2013 ymlaen;

- **Budd-dal y Dreth Gyngor a'r Gronfa Gymdeithasol** – diddymwyd gan Lywodraeth y DU a'r gyllideb a'r cyfrifoldeb am y trefniant olynol yn cael ei 'ddatganoli' i Lywodraeth Cymru (Ebrill 2013);

**Yn ogystal:**

- dull cryfach o leihau twyll a chamgymeriadau gyda chosbau llymach ar gyfer y troseddau mwyaf 'difrifol'; ac
- ymrwymiad hawlydd newydd yn egluro'r gofynion ar gyfer derbyn budd-daliadau gyda chosbau budd-daliadau i'r rhai sy'n methu cydymffurfio heb reswm da. Rydym yn deall bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu ymestyn y budd-dal hwn yn amodol i bobl gyflogedig sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar sail incwm isel. Cynigir seilio hyn ar drothwy enillion yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol wedi'i luosi â nifer yr oriau yr ystyrir y gall unigolyn eu gweithio (hyd at uchafswm o 35 awr yr wythnos).

**Yr Effaith ar Gymru**

4. Er bod diwygio budd-daliadau lles yn fater heb ei ddatganoli, roedd disgwyl i ddiwygiadau Llywodraeth y DU gael goblygiadau sylweddol ac eang ar wasanaethau sydd wedi'u datganoli, unigolion a chymunedau yng Nghymru. O ganlyniad, sefydlodd y Prif Weinidog Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog sy'n parhau i fod ar waith ac yn gyfrifol am asesu a monitro effeithiau'r diwygiadau yng Nghymru. Fel rhan o'r cylch gwaith hwn, comisiynodd y Grŵp, yr wyf i'n Gadeirydd arno, raglen ymchwil dri cham i ddadansoddi'r effeithiau.

**Lliniaru**

5. Er na all Llywodraeth Cymru wneud iawn am y diffyg sy'n deillio o'r newidiadau hyn, fel y nodwyd yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i weithredu i liniaru effeithiau'r diwygiadau, cymaint ag y gallwn o fewn cyd-destun ein cyllidebau is ni. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r canfyddiadau o'n hymchwil i helpu i dargedu cymorth ac i flaenoriaethu adnoddau i leihau tlodi yng Nghymru.

6. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r diwygiadau yng Nghymru ond wrth ystyried hyn efallai y gallai'r Fforwm ystyried rhai o'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd ac yn parhau i'w cymryd i helpu i liniaru rhai o effeithiau gwaethaf y diwygiadau. Er enghraifft, ar gyfer 2013/14: darparodd Llywodraeth Cymru £1.3 miliwn arall i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn; £20 miliwn ychwanegol i gefnogi'r gwaith o adeiladu tai fforddiadwy un a dwy ystafell wely gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ledled Cymru; a buddsoddiad pellach o £20 miliwn dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

7. Ers 2012 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £2.2 miliwn y flwyddyn i gynorthwyo Cyngor ar Bopeth Cymru i gyflwyno'r cynllun manteisio ar fudd-daliadau, *Cyngor Da, Byw'n Well*. Darparodd y gwasanaeth hwn, oedd wedi'i dargedu, gymorth i bron i 21,000 o bobl yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chynhyrchu £16.4 miliwn o fudd-daliadau ychwanegol. Yn 2013/14, darparodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn arall i gefnogi gwasanaethau cynghori a chymorth

rheng-flaen ar faterion yn ymwneud â budd-daliadau lles; tai; dyledion a gwahaniaethu. Rwyf newydd gyhoeddi £2 filiwn arall ar gyfer 2014/15 a bydd y grant hwn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar helpu'r bobl sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan y newidiadau i'r system fudd-daliadau ac ar drechu tlodi ac anghydraddoldeb yn ein cymdeithas, yn ehangach.

8. Yn ogystal, rydym yn darparu cymorth ehangach, er enghraifft, drwy ein rhaglen cymorth digidol, Cymunedau 2.0. Mae'r rhaglen hon yn helpu pobl ddi-waith i ennill sgiliau digidol a fydd o gymorth iddynt wrth chwilio am swydd, yn eu helpu i reoli eu harian a pharatoi ar gyfer digideiddio budd-daliadau lles. Rydym wedi ymestyn y rhaglen hon i ardaloedd nad ydynt yn rhai cydgyfeirio yn y De-ddwyrain gyda chyllid pellach o £1 miliwn, sy'n gyfuniad o arian gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

   Mae ein hymateb i ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU wedi'u hegluro yng nghyd-destun ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ac mae rhagor o fanylion i'w cael yn:

   http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/tacklingpoverty/publications/taking-forward-tack-pov-plan/?lang=en

**Rhaglen Ymchwil Llywodraeth Cymru**

9. **Cam 1**
   Cyhoeddwyd adroddiad Cam 1 ym mis Chwefror 2012 a'r nod oedd dadansoddi'r dystiolaeth gyfredol ar effaith gronnol y newidiadau i fudd-daliadau a'r dreth ar unigolion a chartrefi yng Nghymru.

10. **Cam 2**

   Cyhoeddwyd adroddiadau Cam 2 ym mis Chwefror 2013. Cynhaliwyd y cam hwn drwy gyfuniad o waith mewnol ac allanol. Roedd y gwaith mewnol yn amcangyfrif effeithiau uniongyrchol y prif ddiwygiadau lles ar incwm cartrefi yng Nghymru, ac yn rhoi asesiad manylach o effaith economaidd a chymdeithasol ehangach y diwygiadau lles (gan adeiladu ar ymchwil Cam 1) a'r goblygiadau posibl i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.
   Roedd y gwaith allanol, a wnaed gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dadansoddi effaith y diwygiadau lles ar incwm a chyflenwad llafur yng Nghymru.

   **Cam 3**

11. Roedd rhan gyntaf ymchwil Cam 3, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013, yn asesu effeithiau'r diwygiadau lles ar y rhai â nodweddion gwarchodedig (e.e. rhyw, oedran, pobl anabl, a hil ac ethnigrwydd) tra bod yr ail ran, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014, wedi asesu'r effaith yn ardaloedd awdurdodau lleol Cymru.

## Gwaith ymchwil pellach

12. Ar ôl cwblhau'r rhaglen ymchwil dri cham, aeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog ati i adolygu gofynion ymchwil y dyfodol. Cytunwyd y byddai'r gwaith ymchwil a wnaed gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (fel rhan o Gam 2) i asesu effaith y diwygiadau lles ar incwm yng Nghymru yn cael ei ddiweddaru a'i ymestyn. Bellach, mae'r gwaith ymchwil yn cynnwys diwygiadau a gyhoeddwyd hyd at, ac a oedd wedi'u cynnwys yng Nghyllideb 2014, a'r newidiadau yn y dreth yn ogystal â'r newidiadau i fudd-daliadau. Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwil hwn ym mis Gorffennaf 2014.

    **Canfyddiadau ymchwil diweddaraf:**
    **Dadansoddiad Cam 3 (a gynhaliwyd yn fewnol gan Lywodraeth Cymru)**
    http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/analysingreforms/?skip=1&lang=cy


## Effaith Diwygio Lles yng Nghymru

13. Amcangyfrifir y bydd y newidiadau polisi a aseswyd[1], ac sy'n canolbwyntio ar bobl o oedran gweithio, yn lleihau hawliadau budd-dal a chredyd treth blynyddol yng Nghymru tua £900 miliwn yn 2015/16. I roi'r golled gyffredinol hon mewn cyd-destun, amcangyfrifir y bydd gwariant ar fudd-daliadau a chredyd treth ac incwm gwario gros aelwydydd tua £6 biliwn a £45 biliwn yn 2015/16.

14. Fel y dangoswyd, mae tua hanner y golled hon i'w briodoli i'r ffordd mae budd-daliadau a chredydau treth yn cael eu huwchraddio[2]. Mae colledion ariannol mawr eraill yn deillio o lai o lwyth achosion o dan Daliadau Annibyniaeth Bersonol o gymharu â Lwfans Byw i'r Anabl a chyfyngu amser y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau i flwyddyn i'r rhai mewn grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. Mewn cyferbyniad, mae rhai o'r diwygiadau Budd-dal Tai a'r Cap ar Fudd-dal Tai yn arwain at golledion incwm llawer llai yng Nghymru.

[1] Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar: amcangyfrifon gwariant budd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer 2011/12 a rhagolygon Prydain ar gyfer 2012/13 ymlaen (yn cynnwys Lwfans Gweini, Budd-daliadau Profedigaeth, Lwfans Gofalwr, Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd , Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Mamolaeth, Lwfans Anabledd Difrifol a Thâl Mamolaeth Statudol), credyd treth Cyllid a Thollau EM a data gwariant Budd-dal Plant ar gyfer Cymru yn 2012/13 a rhagolygon Prydain ar gyfer 2013/14 ymlaen. Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar incwm aelwydydd a rhagolygon chwyddiant y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

[2] Yn cynnwys: Newid i uwcrhaddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr (yn hytrach na Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi), cap o 1% ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth oedran gweithio (ac eithrio budd-daliadau anabledd a gofalwyr) a Budd-dal Plant, cynyddu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn ôl 30ain canradd rhenti'r farchnad leol yn hytrach na'r canolrif (wedi'i gynnwys yn y diwygiadau i'r Lwfans Tai Lleol yn 2011-12), a chynyddu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na 30ain canradd rhenti'r farchnad leol.




Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru. Nodyn: Dim ond colli hawliadau sy'n cael ei gwmpasu gan Daliadau Annibyniaeth Bersonol ac mae'n rhagdybio bod gweithredu llawn yn digwydd erbyn 2015/16 er nad oes bwriad i hyn ddigwydd tan 2018/19. Mae'r golled ariannol yn sgil rhewi cyfraddau Budd-dal Plant yn ymwneud â 2013/14 (h.y. blwyddyn olaf y rhewi).

15. Er y bydd colledion yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd y golled flynyddol ar gyfartaledd fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru tua £500 yn 2015/16.


16. I'r rhai yr effeithir ar eu hincwm gan y diwygiadau lles, efallai y bydd yna newidiadau dilynol mewn gwariant a sgil-effeithiau ehangach i'r economi. Er enghraifft, mae llai o arian ym mhocedi pobl yn golygu eu bod yn prynu llai o nwyddau a gwasanaethau, yna bydd y cwmnïau sy'n cynhyrchu'r rhain yn cyflogi llai o bobl, sy'n golygu bod gan y bobl hynny lai o arian i'w wario. Fodd bynnag, pe bai'r diwygiadau lles yn llwyddo i gynyddu nifer y bobl sy'n gweithio, yn y tymor hir gallai hyn arwain at gynnydd mewn allbwn economaidd.

**Effaith Diwygio Lles yn Ardaloedd Awdurdodau Lleol Cymru**

17. Mae'r canfyddiadau'n dangos yn glir bod effaith y diwygiadau lles yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall o ran nifer a chyfran yr unigolion / aelwydydd sy'n cael eu heffeithio a'r colledion ariannol ar gyfartaledd. Fel y gwelir o'r siart, amcangyfrifir mai Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful sydd wedi'u heffeithio fwyaf yng Nghymru gan y diwygiadau lles a ddadansoddwyd. Er y bydd y colledion yn amrywio llawer yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd y golled flynyddol ar gyfartaledd fesul oedolyn o oedran gweithio yn yr ardaloedd hyn tua £600 yn 2015/16 o gymharu â £500 yng Nghymru'n gyffredinol.

18. Mae bron chwarter y boblogaeth 16-64 oed yn yr ardaloedd hyn yn hawlio budd-daliadau oedran gweithio, y gyfran uchaf yng Nghymru. Mae'r ardaloedd hyn yn dioddef yn arbennig yn sgil y newidiadau i'r ffordd mae budd-daliadau a chredydau treth yn cael eu huwchraddio, y terfyn amser ar y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Gyfraniadau, cyflwyno Taliadau Annibyniaeth Bersonol a'r meini prawf mewn perthynas â maint yn y sector rhent cymdeithasol. Mae effeithiau o'r fath yn adlewyrchu'r cyfraddau hawlio budd-daliadau oedran gweithio cyffredinol cymharol uchel, yn enwedig budd-daliadau anabledd a salwch (h.y. Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth), a chyfran uchel y stoc tai rhent sydd yn y sector rhent cymdeithasol.

19. Ar waelod y raddfa, ar gyfartaledd, caiff Powys, Gwynedd a Cheredigion eu heffeithio lawer llai gan y diwygiadau lles a ddadansoddwyd. Mae hyn yn adlewyrchu eu cyfraddau hawlwyr budd-daliadau cymharol isel gydag ychydig dros un o bob deg o'r boblogaeth 16-64 oed yn yr ardaloedd hyn yn hawlio budd-daliadau oedran gweithio, y gyfran isaf yng Nghymru. Eto, er y bydd colledion yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd y golled flynyddol ar gyfartaledd fesul oedolyn o oedran gweithio yn yr ardaloedd hyn tua £400 yn 2015/16, tua dwy ran o dair o'r golled yn yr ardaloedd a effeithir fwyaf.




Ffynhonnell: amcangyfrifon Llywodraeth Cymru.

20. Mae'r canfyddiadau uchod yn seiliedig ar golledion cyfartalog fesul oedolyn o oedran gweithio, sydd weithiau'n gallu cuddio gwahaniaethau mewn effeithiau o fewn ardaloedd awdurdodau lleol mawr. O ystyried colledion incwm absoliwt a'r

gyfran o gyfanswm colledion Cymru y mae pob ardal awdurdod lleol yn gorfod ei hysgwyddo, amcangyfrifir bod y colledion mwyaf fel a ganlyn: Caerdydd (£103 miliwn); Rhondda Cynon Taf (£81 miliwn); ac Abertawe (£75 miliwn) - pob un yn gyfwerth â 8-11% o gyfanswm Cymru yn unol â'u cyfrannau poblogaeth oedran gweithio. Merthyr Tudful (£22 miliwn), Ynys Môn (£19 miliwn) a Cheredigion (£18 miliwn), sydd ymysg awdurdodau lleol lleiaf Cymru yn seiliedig ar gyfrannau poblogaeth, sydd â'r colledion incwm isaf (pob un yn gyfwerth â 2-3% o gyfanswm Cymru).

**Gwaith ymchwil pellach (a gyflawnwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid)**

**Effeithiau Dosbarthiadol Diwygiadau Treth a Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru: y diweddaraf**

21. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cyflwyno'r dadansoddiad diweddaraf o effaith y diwygiadau i fudd-daliadau a threth bersonol sydd wedi'u cyflwyno, neu a fydd yn cael eu cyflwyno, gan lywodraeth glymblaid y DU ers iddi gael ei hethol ym mis Mai 2010 hyd at ac yn cynnwys mis Ebrill 2015. Mae hyn yn cynnwys y mesurau a gyhoeddwyd cyn hynny gan y llywodraeth Lafur flaenorol y dewisodd y llywodraeth newydd eu gweithredu. Rhoddir sylw i ddiwygiadau i fudd-daliadau a threth bersonol yn unig: nid yw'n edrych ar effaith y diwygiadau i'r dreth gorfforaethol a threthi eraill a delir yn ffurfiol gan fusnesau, nac effaith y newidiadau i wariant ar wasanaethau cyhoeddus. Y rheswm am hyn yw sicrhau bod y dadansoddiad yn parhau i fod yn hydrin a bod iddo ffocws.

22. Wrth edrych ar y diwygiadau hyd at fis Ebrill 2015 mae bron pob un o'r prif ddiwygiadau ar y gweill ar hyn o bryd. Ond ni fydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn. Mae cyfuniad o gyfnod cyflwyno maith a darpariaethau trosiannol sylweddol yn golygu na fydd Credyd Cynhwysol mewn 'sefyllfa sefydlog' am gryn amser eto. Yn yr un modd, er bod gofyn i hawlwyr newydd yng Nghymru hawlio Taliadau Annibyniaeth Bersonol yn lle Lwfans Byw i'r Anabl ers mis Mehefin 2013, mae hawlwyr o oedran gweithio cyfredol Lwfans Byw i'r Anabl yn cael eu trosglwyddo'n araf ac ni ddisgwylir i'r rhan fwyaf gael eu trosglwyddo tan 2016 neu 2017. O ganlyniad, ystyriodd yr ymchwil y diwygiadau gan gynnwys y Credyd Cynhwysol a'r Taliadau Annibyniaeth Bersonol a hebddynt. Mae'r paragraffau sy'n dilyn yn ymwneud ag effaith y diwygiadau i drethi a budd-daliadau yn cynnwys Credyd Cynhwysol a Thaliadau Annibyniaeth Personol. Fodd bynnag, gellir gweld dadansoddiad o'r diwygiadau i dreth a budd-daliadau heb y Credyd Cynhwysol a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol yn yr adroddiad llawn, drwy glicio ar y ddolen hon: http://www.ifs.org.uk/publications/7258

23. Disgwylir y bydd y newidiadau i dreth a budd-daliadau yn arwain at golled o tua £720 miliwn yng Nghymru. Mae hyn yn gyfwerth â cholled wythnosol gyfartalog o tua £11 fesul aelwyd bob wythnos (2% o incwm net).

24. Fel y soniwyd yn gynharach yn y papur hwn, mae ffigur Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar effaith y diwygiadau i fudd-daliadau (yn annibynnol ar y diwygiadau yn y dreth) ar bobl o oedran gweithio, yn amcangyfrif colled o tua £900 miliwn. Mae'r gwahaniaeth rhwng amcangyfrifon y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Llywodraeth Cymru yn deillio o'r ffaith eu bod yn ymwneud â gwahanol

ddiwygiadau. Er enghraifft, mae amcangyfrif y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn cynnwys effaith y diwygiadau i dreth ac effaith y diwygiadau lles ar bensiynwyr. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y gwahaniaethau hyn, mae ffigurau y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Llywodraeth Cymru yn cyfateb yn gyffredinol.

25. Yn gyffredinol, disgwylir i Gredyd Cynhwysol fod yn ostyngiad net bychan yng Nghymru yn hytrach na rhyw gyfraniad hael. Mae hyn yn adlewyrchu cyhoeddiadau pellach ers Cyllideb 2012 sydd wedi'i wneud yn llai hael i aelwydydd sy'n gweithio (e.e. toriadau i lwfansau gweithio – y swm y gall hawlydd ei ennill cyn i hynny effeithio ar ei daliad Credyd Cynhwysol).

26. Gyda'i gilydd, mae Credyd Cynhwysol a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol yn lleihau incwm cyfartalog aelwydydd tua £3 yr wythnos, neu £170 miliwn i gyd ledled Cymru. Bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol gyda'i gilydd ar ôl 2015 yn helpu'r aelwydydd tlotaf. Ond bydd yn cael effaith wael ar yr aelwydydd y mae disgwyl iddynt golli eu hawl i fudd-daliadau anabledd, y rhan fwyaf ohonynt ar lefel ganolig y dosbarthiad incwm ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, yr aelwydydd sy'n agos at y ffin tlodi (yn hytrach na'r grwpiau incwm canolig neu uwch) a fydd ar eu colled fwyaf yn sgil y diwygiadau i dreth a budd-daliadau (tua 4.5% o incwm net).

27. Nid yw effeithiau'r diwygiadau i dreth a budd-daliadau wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Bydd rhai aelwydydd yn dioddef yn waeth – yn arbennig y rhai sy'n agos at y ffin tlodi, aelwydydd anabl o oedran gweithio, aelwydydd nad ydynt yn gweithio, y rhai â phlant, ac aelwydydd o oedran gweithio incwm isel heb blant. Y rhai sydd ar eu hennill yw aelwydydd o oedran gweithio incwm canolig ac uwch heb blant, ac aelwydydd pensiynwyr incwm is.

28. Yn ôl statws anabledd, mae aelwydydd sy'n cynnwys oedolion anabl o oedran gweithio yn cael eu taro'n waeth nag aelwydydd o oedran gweithio nad ydynt yn anabl. Mae'r colledion incwm net yn 6.5% (bron £34 yr wythnos) ac 1.5% (£10 yr wythnos) ar gyfartaledd. Y rheswm am hyn yw eu bod yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y toriadau i fudd-daliadau anabledd. Hefyd, gan fod aelwydydd anabl yn fwy tebygol o fod ag incwm is cyn treth a budd-daliadau, gallant gael eu heffeithio gan doriadau eraill i fudd-daliadau a bod yn llai tebygol o elwa ar gynnydd i'r lwfans treth personol.

29. Yn ôl math o aelwyd, o gymharu ag aelwydydd o oedran gweithio heb blant a phensiynwyr, aelwydydd o oedran gweithio â phlant (yn enwedig y rhai sy'n agos at y ffin tlodi) sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan eu bod yn dibynnu mwy ar incwm budd-daliadau yn enwedig os ydynt ar incwm isel. Maent yn profi colled incwm net o tua 4% (£27 yr wythnos) ar gyfartaledd o gymharu â llai nag 1% (llai na £6 yr wythnos) yn y ddau grŵp arall. O ran aelwydydd o oedran gweithio â phlant, y rhai sy'n agos at y ffin tlodi sy'n colli fwyaf yn nhermau canran (tua 7% o incwm net). Pensiynwyr sy'n dioddef leiaf gan eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag y rhan fwyaf o'r newidiadau i fudd-daliadau a bod 'clo triphlyg' ar bensiynau, ond mae'r newidiadau i dreth yn lleihau incwm gan nad yw lwfans treth pensiynwyr yn cynyddu.

30. Yn ôl statws gweithio, mae disgwyl i aelwydydd nad ydynt yn gweithio, yn enwedig y rhai â phlant, wynebu mwy o golledion incwm nag aelwydydd sy'n gweithio yn sgil y newidiadau i dreth a budd-daliadau. Yn fwyaf nodedig, amcangyfrifir y bydd cyplau nad ydynt yn gweithio sydd â phlant ac unig rieni nad ydynt yn gweithio yn colli tua 12% o'u hincwm net wythnosol (£40-£55 yr wythnos) ar gyfartaledd o gymharu â cholled o tua 2% (£11 yr wythnos) ar gyfartaledd i bob cartref yng Nghymru. Fodd bynnag, mae disgwyl i rai pobl sy'n gweithio weld colledion sylweddol yn eu hincwm hefyd. Er enghraifft, bydd unig rieni sy'n gweithio a chyplau â phlant sydd ag un oedolyn yn gweithio yn gweld colled o tua 5% (£26-£32 yr wythnos) ar gyfartaledd.